

DOLEN Y TAB – 13

17–18 Gorffennaf 2020

DYDD SUL
19 Gorffennaf

****Oedfa'r Tabernacl****

Yng ngofal Wendy Reynolds, Beth Reynolds a Huw M. Roberts. Bydd i'w gweld ar dudalen Facebook a gwefan y Tabernacl.

10.30 Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr
Dim manylion pellach ar gael eto.
www.annibynwyr.org.

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol
gyda'r Parchedig Rhodri Glyn, Bro Aled yn arwain.

12.00 Oedfa Radio Cymru
yng ngofal y Parchedig Catrin Roberts, Caerdydd.

Cofiwch hefyd . . .

- am y rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts am 12.30.
- fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul:
www.cristnogaeth21.cymru

HENO
(NOS WENER, 17 GORFFENNAF)

AM 7 O'R GLOCH

Eich cyfle olaf i serennu cyn y gwyliau . . .

CWIS BOB OED
CAPEL Y TABERNACL

CWISFEISTRI:

Teulu Roberts Maes yr Haul
+
Teulu Morse

CROESO I BAWB YMUNO AR ZOOM!

ID: 9173521143
Cyfrinair: 9bPfND

DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd unwaith eto am eich cefnogaeth i Fanc Bwyd Taf Elái, a'ch haelioni dihybydd yn ystod y trefniadau amgen yn ystod cyfyngiadau Covid-19. Bydd ail gyfraniad ariannol yn cael ei drosglwyddo cyn diwedd y mis, a'r £1,200 a gasglwyd y tro hwn yn gymorth sylweddol i Lol Delbridge a'r criw o Fethel Pontyclun yn eu hymdrechion i ddiwallu anghenion teuluoedd yr ardal. Bydd y casgliad yn weithredol nes bydd y capel yn ail-agor, ac mae'r manylion cyfrannu yn y Ddolen ac ar wefan y capel.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

PRIF LENOR

Llongyfarchiadau gwresog i Eluned Davies-Scott ar ennill y Prif Dlws Llenyddol yng Ngŵyl Llenyddol Rithiol Merched y Wawr yr wythnos ddiwethaf. Y testun a osodwyd oedd 'Bro fy Mebyd', a'r beirniad oedd Meleri Wyn Jones, sy'n awdur profiadol. Yn ôl Meleri, roedd hi'n gystadleuaeth gref iawn – ond roedd un cynnig yn 'disgleirio', ac yn peintio nifer o ddarluniau byw 'yn nhafodiaith hyfryd Sir Drefaldwyn'. Gan na ellid cynnal unrhyw fath o seremoni i gyflwyno'r tlws i Eluned, cafwyd eitem ar Facebook y mudiad oedd yn cynnwys darlleniad o ran o'r gwaith, a chyfle iddi hithau sôn am ei magwraeth a dylanwad ei milltir sgwâr ar ei bywyd. Cafodd ei chyfweld hefyd o'i chartref ar y rhaglen deledu *Prynhawn Da*. Gobeithio y cawn ninnau gyfle maes o law i ddarllen a mwynhau gwaith creadigol Eluned.

Capel y Tabernacl Cyf.

RHEOLWR SAFLE

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk / 01443 206833
Gwilym Huws gehpengwem@yahoo.co.uk / 01443 225205

AGOR . . .

Yn 2021 byddwn yn nodi 60 mlynedd ers cynnal y cyntaf mewn cyfres o refferenda ar agor tafarn dai Cymru ar y Sul wedi iddynt fod ar gau ers pasio Deddf Cau Tafarnau Cymru (1881). Yn y refferendwm cyntaf yn 1961 fe bleidleisiodd mwyafrif y Cymry dros eu hagor. Ond, yn groes i'r drefn sydd mor gyfarwydd i ni heddiw, nid y canlyniad cenedlaethol ond yr un fesul sir oedd yn cyfrif. Arweiniodd hyn at batrwm lle roedd agor neu gau ar y Sul yn amrywio o sir i sir (ac yna, o 1974 ymlaen, o un Cyngor Dosbarth i'r llall). Gwahaniaeth mawr arall oedd i'r ddeddf ganiatáu cynnal refferendwm newydd bob saith mlynedd, ar yr amod bod canran o'r boblogaeth leol yn cyflwyno cais amdano. Mewn rhai ardaloedd, megis Morgannwg, mae drysau'r tafarnau wedi bod ar agor ar y Sul ers 1961 tra mewn un ardal, sef Dwyfor, roeddynt ar gau hyd at ddiwedd yr ugeinfed ganrif gan i'r bleidlais o blaid eu cadw ar gau ennill y dydd mewn saith refferenda.

Ond yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru yn rhoi hawl i addoldai gynnal oedfaon cynulleidfaol unwaith yn rhagor, wedi pedwar mis dan glo, daeth tro ar fyd i'n rhan. Yn yr un modd â sectorau eraill, megis ysgolion, siopau a bwytai, roedd y penderfyniad i gau lawer yn haws na'r un i ail-agor. Bydd angen pwyso a mesur yn ofalus, felly, sut a phryd i ail-agor drysau'r capel. Wrth gwrs, mae'r un her yn wynebu pob capel ac eglwys ledled Cymru.

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn cydnabod, dan gyfansoddiad yr enwad, mai yn nwylo Ymddiriedolwyr yr eglwysi unigol y mae'r dewis. Serch hynny, maent wedi bod o gymorth mawr wrth lunio canllawiau cynhwysfawr o'r amodau y bydd raid eu dilyn cyn y gellir ail-agor. Maent yn pwysleisio bod rheidrydd arnom i roi'r flaenoriaeth ar ben popeth arall i ddiogelu'r aelodau a'r gymuned leol.

. . . NEU GAU ?

Y sefyllfa yma yng Nghapel y Tabernacl ar hyn o bryd yw bod Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi derbyn copi o ganllawiau'r Undeb ynghyd â manylion yr asesiad risg y bydd yn ofynnol ei gynnal os am ail-agor.

Wedi iddynt dafoli'r holl oblygiadau ymarferol byddant yn cyhoeddi eu dyfarniad i'r aelodau yn ystod yr wythnos nesaf. Yn y cyfamser, bydd y capel yn parhau ar gau am y tro.

AMLENNI GWYN A BROWN

Erbyn bore Sul byddwn wedi methu cynnal oedfa yn y Tabernacl ar 17 Sul yn olynol.

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa eglwys (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r plât casglu, byddem yn ddiolchgar petaech yn parhau i gyfrannu yn ôl eich arfer drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Os yn anfon at Arwyn, yna rhowch y siec yn yr amlen wen neu frown – fel arall nodwch eich rhif aelodaeth. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.
Cod didoli: 30 – 96 – 72;
Rhif y cyfrif: 03607499

Diolch yn fawr.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd dros gyfnod y clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205.*

Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Diolch.